dros adferiad o afiechyd meddwl difrifol **hafal** for recovery from serious mental illness

Torfaen

Adroddiad Blynyddol 2010-2011

Mae Hafal Torfaen yn darparu gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd ac Eiriolaeth i Ofalwyr sydd yn gweithio o'r Siop Wybodaeth yn Sebastopol, Pont-y-pŵl. Mae hwn yn wasanaeth newydd sydd yn ddatblygiad o'r prosiect yr oeddem yn arfer ei ddarparu mewn blynyddoedd cynt, a hynny o ganlyniad i'r newid yn yr ariannu. Ar hyn o bryd, rydym ond yn medru gweithio am 10 awr yr wythnos ar draws y Fwrdeistref, ac o'r herwydd, yn meddu ar gyfleoedd cyfyngedig i ddatblygu.
Rydym wedi ein lleoli yn y Siop Wybodaeth yn Sebastopol un bore'r wythnos ac yn trefnu ymweliadau cartref, apwyntiadau, gweithgareddau a digwyddiadau oddi yno; ond rydym yn gobeithio trefnu sesiynau pellach mewn lleoliadau lleol eraill er mwyn diwallu anghenion y gymuned. Rydym eisoes wedi cychwyn sesiwn grŵp yn Griffithstown, Pont-y-pŵl, a hynny fel arbrawf bob mis.

Mae ymweliadau cartref nawr ar gael i'r sawl na sydd yn medru dod i'r prosiect. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda'r prosiect yn gweithredu ar ran a/neu yn cynorthwyo teuluoedd drwy'r fwrdeistref. Mae'r gwasanaeth yn darparu eiriolaeth a chydlynu gyda Meddygon Teulu, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a swyddfeydd Tai a Budd-daliadau ac asiantaethau lleol eraill.

Yn ystod 2010-2011, rydym wedi darparu/mynychu'r digwyddiadau canlynol:

- Roedd digwyddiad 'Ffordd Tuag at Adferiad' Hafal wedi ei gynnal yn y Siop Wybodaeth, Sebastopol ym Mhont-y-pŵl ac roedd gofalwyr, defnyddwyr gwasanaeth a chynghorwyr lleol wedi ei fynychu. Mae hyn wedi cynorthwyo i godi proffil y prosiect (gweler y llun isod).
- Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl i'r Teulu ym Mharc Panteg ac roedd wedi sicrhau bod y gymuned leol yn chwarae rhan yn y gweithgareddau a hyrwyddo gwasanaethau lleol.
- Roedd Grŵp Gofalwyr newydd wedi cwrdd ar gyfer digwyddiad rhannu gwybodaeth. Roeddem wedi trafod anghenion gofalwyr yn y fwrdeistref a'r bylchau yn y gwasanaethau ac roedd pob un asiantaeth wedi siarad am eu gwasanaethau unigol a sut i gael mynediad atynt.
- Cynhaliwyd y 'Diwrnod Gwneud Gwahaniaeth' ym Mharc Panteg ac roedd nifer o blant o ysgolion lleol wedi cymryd rhan drwy blannu bylbiau o gwmpas y parc. Roedd staff asiantaethau lleol yn gofalu ar ôl stondinau arddangos er mwyn caniatáu i rieni a thrigolion i gasglu gwybodaeth a allai wneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Roedd digwyddiad Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd wedi ei gynnal gydag arddangosfeydd iechyd a gweithgareddau er mwyn galluogi i ddefnyddwyr i gymryd rhan.
- Roedd digwyddiad Diwrnod Hawliau Gofalwyr a Gofalwyr yn Cadw'n Dda wedi ei gynnal yn lleol gyda gweithgareddau yn cael eu darparu gan yr Extend Exercise Programme a chymorth iechyd meddwl yn cael ei ddarparu gan Hafal.
- Cynhaliwyd digwyddiad Comic Relief gyda chystadleuaeth gwisg ffansi yn y parc lleol ac roedd yn gryn lwyddiant.

Mae llawer o asiantaethau yn gweithio o'r Siop Wybodaeth ar ffurf rota ac rydym yn cyfuno adnoddau er mwyn trefnu digwyddiadau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn caniatáu i bobl Torfaen i gael mynediad at y gwasanaethau mwyaf priodol o ran eu hanghenion ac i dderbyn cyfoeth o wybodaeth mewn un ymweliad.

http://www.hafal.org/hafal/cymraeg/torfaen.php

D/o: 47, Heol Duckpool, CASNEWYDD NP19 8EH
Ffôn: 01633 842 266
e-bost: torfaen@hafal.org